# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Meithrinfa Jac-Y-Do**

**Ffordd y Faenor**
**Rhydaman**
**SA18 3AP**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cyhoeddi

**Dydd Mawrth, 17 Gorffennaf 2018**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2018.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau Trwydded Agored y Llywodraeth. Gallwch weld Trwydded Agored y Llywodraeth ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Meithrinfa Jac-Y-Do yn darparu gofal dydd llawn ar gyfer hyd at 40 o blant rhwng wyth wythnos a 12 blwydd oed. Gweithredir y gwasanaeth o adeilad hunangynhwysol, a adeiladwyd yn bwrpasol yn Rhydaman, Sir Gaerfyrddin. Yr oriau agor yw 7.30am i 6pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener. Darperir y rhan fwyaf o'r gofal trwy gyfrwng y Gymraeg; ond defnyddir y Saesneg hefyd. Rhian Mann yw'r person cyfrifol a'r person â gofal yw Sue Trevelyan.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

### 1. Asesiad cyffredinol

Mae'r plant yn y feithrinfa hon yn hapus ac wedi ymgartrefu, ac yn cael budd o wasanaeth sy'n canolbwyntio'n fawr ar y plentyn. Mae'r staff yn brofiadol, yn feithringar ac yn gyson gyda'u hymdriniaeth o'r plant. Mae'r staff hefyd yn effeithiol wrth ateb anghenion unigol y plant. Mae'r amgylchedd yn galluogi plant i archwilio a chael mynediad at amrediad eang o adnoddau. Mae'r adeilad yn ddiogel, yn saff ac yn ysgogol.

### 2. Gwelliannau

Yn ystod y broses arolygu anfonwyd datganiad o ddiben wedi'i ddiweddaru at Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) oedd yn darparu darlun cywir o'r gwasanaeth a ddarperir, ynghyd â hysbysiad oedd yn ein hysbysu am newidiadau i'r staff. Cadarnhaodd y person cyfrifol y canlynol:

- roedd staff wedi dechrau cadw cofnod ysgrifenedig o anafiadau presennol nawr;
- roedd yr arweinydd wedi dechrau'r broses o gynnal sesiynau goruchwylio staff;
- roedd ffeiliau staff wedi'u cwblhau er mwyn cynnwys yr holl ddogfennaeth sy'n ofynnol drwy reoliad ac
- roedd cofnodion meddyginiaeth wedi'u diweddaru er mwyn cynnwys amser y dos diwethaf.

### 3. Gofynion ac argymhellion

Argymhellir y canlynol gennym:

- bod syniadau'r plant yn cael eu hadlewyrchu pan gynllunnir y themâu;
- bod trefniadau rheoli heintiau yn cael eu tynhau;
- bod annibyniaeth plant yn cael ei hyrwyddo ymhellach;
- bod staff yn ymgyfarwyddo eu hunain â threfniadaeth newid cewyn;
- bod staff yn dyddio gwaith y plant er mwyn dangos cynnydd/atchweliad.
- bod gan bob bin clawr;
- bod lluniau o'r plant yn cael eu hychwanegu at eu pegiau enw er mwyn hyrwyddo adnabyddiaeth enw;
- bod cofnodion ymarferion tân yn dangos y dyddiadau y cynhaliwyd yr ymarferion ynghyd â'r nifer o blant a staff sydd yn bresennol;

- bod cofnodion yn cael eu cwblhau mewn inc a
- bod cofnod yn cael ei gadw sy'n dangos bod staff yn bresennol ym mhob ystafell.

## 1. Llesiant

### Crynodeb

Mae'r plant yn ddiwyd iawn ac yn mwynhau eu chwarae'n fawr iawn yn y gwasanaeth hwn. Maen nhw'n gallu gwneud eu dewisiadau eu hunain. Maen nhw'n cyfathrebu eu profiadau a'u dewisiadau'n hyderus ac yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi'n a'u bod yn ddiogel. Mae'r plant wedi ymgartrefu ac yn gysurus yng nghwmni'r staff.

### Ein canfyddiadau

### 1.1 I ba raddau y mae gan blant lais?

Mae'r plant yn gallu gwneud dewisiadau a phenderfyniadau ac yn lleisio'u barn yn Gymraeg a Saesneg, gan wybod y bydd y staff yn gwrando arnynt.

Roedd plant o bob oed yn gallu gwneud dewisiadau am y gweithgareddau yr oeddent eisiau eu gwneud. Er enghraifft, yn yr ystafell fabanod, gwelsom fod y plant yn cropian yn ogystal â cherdded i'r ardaloedd yr oeddent eisiau chwarae ynddynt. Gwelsom fod y plant yn dewis ble'r oeddent eisiau eistedd yn ystod gweithgaredd coginio. Dywedodd un plentyn yn hyderus amser byrbryd, *"Na sai'n hoffi mango"* a chydnabuwyd hyn gan y staff. Gallai'r plant ddewis dŵr neu laeth yn ystod amser byrbryd, a gallent gael dŵr ar unrhyw adeg o'r dydd. Gwelsom fod y plant yn helpu eu hunain i adnoddau o ardaloedd gwahanol yn ystod yr ymweliad. Yn ystod y gweithgaredd coginio, rhoddwyd y dewis i'r plant i ymuno yn y gweithgaredd ac roeddent hefyd yn gallu gadael y bwrdd i fynd i chwarae yn yr ardal oedd o ddiddordeb iddynt. Clywsom aelod o staff yn gofyn i blentyn a oedd eisiau dod i eistedd ar y bwrdd, dywedodd y plentyn yn hyderus nad oedd eisiau a chydnabuwyd hyn. Roedd y plant hynny â chefndir Cymraeg iaith gyntaf yn hyderus y byddai eu hanghenion ieithyddol yn cael eu diwallu, a chlywsom blant yn dewis eu hiaith gyfathrebu.

Mae gan blant lais cryf yn y gwasanaeth hwn.

### 1.2 I ba raddau mae plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus, a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi?

Mae'r plant wedi ymgartrefu ac yn ffurfio perthynas glòs â'r staff.

Yn ystod ein hymweliad gwelsom fod y plant yn hapus, wedi ymgartrefu ac yn ymlaciedig. Roedd gan y plant eu pegiau a'u henwau eu hunain er mwyn iddynt allu hongian eu cotiau a'u bagiau fel yr oeddent yn cyrraedd y feithrinfa. Gwelsom fod y plant hŷn yn eistedd yn hapus yn ystod amser byrbryd ac yn sgwrsio'n fywiog gyda'i gilydd. Roedd gan y plant berthynas dda â'u gofalwyr ac roeddent yn ymlaciedig ac yn hapus yn eu cwmni, yn aml yn symud yn nes atynt i gael eu cofleidio. Roeddent wedi ymgolli yn eu chwarae ac roedd llawer o wenu a chwerthin wrth i'r plant chwarae ac archwilio'r amgylchedd o'u cwmpas, a hynny'n arwydd eu bod yn hapus a hyderus. Roedd y plant yn gyfarwydd â threfniadau'r diwrnod, megis amser mynd i'r tŷ bach ac eistedd i lawr i fwyta. Roedd y plant yn gwenu ac

ymddangosent yn falch pan oeddent yn cael clod am eu hymdrechion ar ôl cwblhau tasg, bwyta'u bwyd neu am wneud rhywbeth yn dda.

Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel, yn hapus a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi ym Meithrinfa Jac-Y-Do.

### 1.3 Pa mor dda mae plant yn rhyngweithio?

Mae'r plant yn rhyngweithio mewn ffordd gadarnhaol a chwrtais gyda'u cyfoedion a'u gofalwyr.

Roedd y plant yn ymlaciedig yn ystod yr ymweliad a gwelsom ryngweithio cadarnhaol. Yn ystod yr ail ymweliad, gwnaeth y plant berfformio gyda'i gilydd ar y llwyfan yn ystafell y plant dros ddwy flwydd oed, canodd un plentyn hwiangerdd yn hyderus tra'r oedd eraill yn chwarae offerynnau yr oeddent wedi eu gwneud eu hunain. Gwelsom fod y plant yn gwenu a chwerthin at ei gilydd fel yr oeddent yn perfformio. Roedd y plant yn yr ystafell fabanod yn edrych ar boteli synhwyraidd a daeth un plentyn atom yn hyderus, gan estyn y botel synhwyraidd i ni. Yn ystod gweithgaredd coginio, gwelsom fod y plant yn eistedd yn amyneddgar ac yn disgwyl am eu tro i fesur a chymysgu'r cynhwysion. Roedd y plant yn fodlon i aros eu tro mewn gweithgaredd peintio balŵn gydag aelod o staff yn yr ystafell ar gyfer plant o dan ddwy flwydd oed. Yn ystod amser byrbryd, didolodd un plentyn y cwpanau plastig gan ddweud wrth y plant, *"Dyma ti."* Roedd y plant i gyd yn dda wrth eistedd gyda'i gilydd. Gwelsom hefyd ddau blentyn yn cymryd rhan mewn chwarae dychmygol oedd yn cynnwys dinosoriaid a dywedodd un plentyn wrth y llall, *"Ar! Wow, rhed."*

Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda â'r plant eraill.

### 1.4 I ba raddau mae plant yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu?

Mae'r plant yn ymddiddori yn eu chwarae a'u dysgu ac wedi'u cyffroi ganddynt.

Roedd plant o bob oedran wedi'u hymgysylltu'n llawn yn eu chwarae yn ystod yr ymweliad arolygu. Gwelsom fod y plant yn mwynhau gweithgareddau a arweinir gan oedolion a chwarae rhydd, megis chwarae yn yr awyr agored gyda theganau y gellir eistedd arnynt a theganau i'w gwthio, chwarae gyda dinosoriaid plastig, doliau a phosau jig-so, chwarae rôl yn y gegin, adeiladu gyda Duplo a gweithgaredd peintio. Gwelsom blant iau yn chwerthin ac yn cael hwyl wrth archwilio poteli synhwyraidd a theganau synhwyraidd yn cynnwys adeiladau ciwbiau yn ogystal ag offerynnau cerddorol. Roedd hefyd llawer o chwerthin pan oedd plant hŷn yn gorffen gweithgaredd adeiladu ar ôl defnyddio deunyddiau sbwriel. Roedd y plant yn hunan ysgogol ac wedi ymgolli'n llwyr yn eu chwarae rhydd dewisedig, o dan do ac yn yr awyr agored.

Mae'r plant yn frwdfrydig dros eu chwarae a'u dysgu.

### 1.5 Pa mor dda mae plant yn datblygu, yn dysgu ac yn dod yn annibynnol?

Mae’r plant yn hyderus ac wedi eu hysgogi, ac yn datblygu eu sgiliau unigol.

Roedd plant yn hyderus o ran dewis eu gweithgareddau chwarae a datblygu eu chwarae yn annibynnol er eu bod hefyd yn cael eu cefnogi i estyn eu chwarae gan y staff. Gwelsom, er enghraifft, fod plentyn iau yn dal ymlaen i gerddwr ac yn cymryd camau annibynnol. Roedd sgiliau lleferydd ac iaith y plant hŷn wedi datblygu'n dda ac roedd y plant yn siarad gyda ni yn glir, gan ofyn beth oeddem yn gwneud yno a beth oeddem yn ei ysgrifennu. Roedd y plant yn bwydo eu hunain gan ddefnyddio eu dwylo neu gyllyll a ffyrc fel bo'n briodol i'w hoedran. Yn ystod amser byrbryd a chinio, dewiswyd plant i ddosbarthu'r cwpanau plastig a'r platiau. Darparwyd cyfle yn yr ystafell i blant dros ddwy flwydd oed i helpu eu hunain i ddŵr o'r dosbarthwr. Cefnogwyd y plant i wisgo eu dillad bob tywydd ac esgidiau glaw cyn mynd i chwarae yn yr awyr agored. Canfuom fod plant yn cael rhai cyfleoedd i ddod yn annibynnol, er enghraifft roedd y plant yn helpu i arllwys eu diodydd eu hunain amser byrbryd a darparwyd cyfle iddynt ledaenu menyn ar eu tost gan ddefnyddio cyllell blastig; fodd bynnag, roedd y ffrwythau a ddarparwyd wedi'u torri a dosbarthwyd y ffrwythau gan staff yn hytrach na rhoi cyfle i adael y plant i helpu'u hunain.

Mae’r plant yn datblygu'n dda.

## 2. Gofal a Datblygiad

### Crynodeb

Mae'r staff wedi'u hysgogi, yn frwdfrydig ac yn ymarferwyr effeithiol. Maent yn gyson ar y cyfan wrth ddilyn polisïau a gweithdrefnau sy'n cynorthwyo datblygiad y plant ac yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae gan y staff ddealltwriaeth dda o anghenion unigol y plant ac maen nhw'n gweithio'n effeithiol i ddiwallu'r anghenion hynny.

### Ein canfyddiadau

### 2.1 Pa mor dda mae ymarferwyr yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach?

Mae'r rhan fwyaf o staff yn gweithredu amrediad o bolisïau a gweithdrefnau er mwyn cadw plant yn ddiogel ac yn iach.

Roedd y rhan fwyaf o'r staff wedi mynychu hyfforddiant amddiffyn plant, ac roeddent yn ymwybodol o'r gweithdrefnau i'w dilyn pe bai ganddynt bryderon am blentyn yn eu gofal. Dywedodd staff wrthym eu bod yn deall eu cyfrifoldebau o ran diogelu a'u bod yn gwybod pwy oedd y person dynodedig ar gyfer diogelu.
Roedd gan staff ddull cyson o reoli risg a hybu ffyrdd o fyw'n iach. Gwelsom fod y staff yn cadw golwg reolaidd ar y plant sy'n cysgu. Dywedodd staff wrthym fod chwarae yn yr awyr agored yn rhan bwysig o chwarae'r plant. Gwelsom blant yn chwarae yn yr awyr agored yn ystod y ddau ymweliad. Roedd y staff yn sicrhau bod eli haul wedi'i roi ar y plant a'u bod yn gwisgo'u hetiau haul cyn chwarae yn yr awyr agored ar y balconi. Roedd gan y rhan fwyaf o'r staff dystysgrifau hylendid bwyd dilys. Roedd y gwasanaeth yn hyrwyddo bwyd a byrbrydau iach, oedd yn cynnwys ffrwythau a thost. Roedd bwydlen y feithrinfa yn cynnwys dewis o brydau iach oedd newydd gael eu paratoi a byrbrydau yn rheolaidd. Ar ddiwrnod yr ymweliad gwelsom fod y plant yn bwyta pei bwthyn ynghyd â threiffl i bwdin. Ar yr ail ymweliad gwelsom fod y plant yn cael cynnig mango, banana, afal a thost gwenith cyflawn ar gyfer byrbryd y bore ynghyd â llaeth neu ddŵr i yfed. Yn ystod amser cinio, clywsom y staff yn atgoffa'r plant bod angen iddynt fod yn ofalus *"Mae'n boeth iawn. Chwytha arno fe. Bydd yn ofalus gan ei fod yn boeth."* Ni welsom y staff yn sychu'r byrddau gyda glanhawr gwrthfacteria cyn bwyd.

Yn ystod ein hymweliad, gwelsom fod staff yn sicrhau bod yr holl blant yn golchi eu dwylo cyn cael bwyd yn ogystal ag ar ôl iddynt ymweld â'r toiled; fodd bynnag pan wnaethom ofyn i'r staff yn yr ystafell fabanod, dywedwyd wrthym fod y plant yn cael eu dwylo wedi'u sychu ar ôl bwyd yn unig ac nid cyn bwyd.
Wrth newid cewyn, gwelsom un aelod o staff yn dilyn y weithdrefn a amlinellir yn y polisi newid cewyn. Gwelsom aelod o staff arall yn newid cewyn a chanfuom nad oedd y mat newid wedi'i sychu a'i lanhau ar ôl newid cewyn y plentyn.

Mae'r staff yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach.

## 2.2 Pa mor dda mae ymarferwyr yn rheoli’r rhyngweithio?

Mae’r staff yn gweithio yn unol â pholisi rheoli ymddygiad y feithrinfa, ac mae eu dull o weithredu'n gyson.

Gwelsom nifer o enghreifftiau lle'r oedd staff yn gweithredu'r polisi ymddygiad yn effeithiol drwy'r feithrinfa. Roedd y staff yn fodelau rôl dda a dangosant barch tuag at ei gilydd a'r plant. Yn ystod ein hail ymweliad, clywsom staff yn atgoffa'r plant i ddweud 'os gwelwch yn dda' a 'diolch' fel yr oedd yn briodol. Yn ystod amser cinio clywsom lawer o ryngweithio rhwng y staff a'r plant. Roedd y staff yn annog y plant i ddefnyddio'u cyllyll a ffyrc ac yn eu canmol am eu hymdrechion, *"Ti'n gwneud gwaith da."* Roedd yr amgylchedd yn gyfeillgar ac ymlaciedig a ni chlywsom y staff yn codi'u lleisiau. Roeddent yn atgoffa'r plant i rannu a chymryd eu tro'n barhaus, ac yn esbonio pam, er mwyn i blant gwybod yr hyn a ddisgwylid ganddynt. Ni welsom unrhyw anghydfodau yn ystod ein hymweliad.

Mae'r staff yn effeithiol o ran rheoli rhyngweithiadau'r plant.

## 2.3 Pa mor dda mae ymarferwyr yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad plant, ac yn diwallu eu hanghenion unigol?

Mae'r staff yn adnabod, yn deall, ac yn diwallu anghenion unigol y plant.

Roedd y chwarae hunangyfeiriedig yn cael ei gyfoethogi am fod staff yn gofyn cwestiynau pen agored er mwyn ehangu dealltwriaeth a phrofiadau'r plant. Yn ystod tasg yn ystafell y plant dros ddwy flwydd oed, gwelsom fod y staff yn ehangu sgiliau'r plant wrth eu hannog i gyfrif ac enwi lliwiau'r deg arth plastig. Siaradwyd yn Gymraeg â phlant a rhieni o gartrefi Cymraeg. Mae arweinwyr a staff yn darparu'r 'cynnig gweithredol' mewn perthynas â'r iaith Gymraeg. Gwelsom hefyd eu bod wedi cynllunio gweithgareddau tymhorol megis Dydd Santes Dwynwen a Dydd Gŵyl Dewi. Roedd staff yn rhyngweithio â'r plant yn gyson ac yn hyrwyddo’r defnydd o'r Gymraeg.

Gwnaethom edrych ar gofnodion a theithiau dysgu'r plant. Roedd y staff yn olrhain datblygiad y plant ac roeddent wedi cofnodi eu cyflawniadau yn unol â meysydd dysgu'r Cyfnod Sylfaen. Gwelsom hefyd lyfr lloffion o ffotograffau a gweithgareddau amrywiol, ond nid oedd yr holl arsylwadau a gweithgareddau wedi'u dyddio. Roedd y staff yn cyfathrebu â'r rhieni ar sail ddyddiol. Roedd y staff yn aros gyda'r plant bach a'r plant hŷn pan oeddent yn cysgu ar ôl cinio. Dywedodd staff wrthym eu bod yn ymateb i geisiadau'r rhieni ynglŷn ag arferion cysgu.

Mae'r staff yn effeithlon ac yn brofiadol wrth hyrwyddo chwarae'r plant, dysgu a datblygiad ac maent yn bodloni eu hanghenion unigol.

## 3. Yr Amgylchedd

### Crynodeb

Mae'r arweinydd yn sicrhau bod plant yn derbyn gofal mewn amgylchedd diogel sy'n ysgogol iawn ac yn hybu dysgu. Mae'n sicrhau bod gan blant fynediad at adnoddau ac amgylchedd sy'n gweddu eu hanghenion a bod yr amgylchedd yn cael ei adolygu a'i ddatblygu'n gyson.

### Ein canfyddiadau

### 3.1 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau diogelwch yr amgylchedd?

Mae'r staff yn sicrhau bod y plant yn derbyn gofal mewn amgylchedd diogel, glân a saff. Maent yn sicrhau bod risgiau diangen i blant yn cael eu nodi a'u lleihau neu eu dileu.

Canfuom fod y feithrinfa yn ddiogel gan fod y drws ffrynt yn cael ei gadw dan glo ac ni allai unrhyw un gael mynediad i'r adeilad heb i aelod o staff eu gadael i mewn. Roedd llyfr ymwelwyr ar waith. Gwelsom un cofnod ymarferion tân wedi'i gwblhau; ond nid oedd y cofnod hwn wedi'i dyddio ac nid oedd yn cynnwys yr union nifer o blant a staff. Roedd gan arweinwyr a staff systemau effeithiol i nodi risgiau. Roedd y staff yn cynnal gwiriadau dyddiol o'r safle a'r offer a ddefnyddir ac roedd y rhain yn ddogfennau gweithredol. Dywedodd yr arweinydd wrthym ei bod yn cael gwared ar unrhyw deganau a oedd wedi torri ac yn cael rhai newydd cyn gynted â phosibl. Gwelwyd casgliad o deganau oedd wedi torri yn ystafell yr arweinydd yn ystod yr ymweliad. Roedd yr arweinydd wedi sicrhau bod asesiadau risg ar waith ar gyfer pob rhan o'r feithrinfa yn ogystal â'r gweithgareddau megis coginio. Roedd yr arweinydd wedi cyflogi aelod o staff i weithio yn y gegin a chynnal arferion glanweithdra a hylendid da yn y man hwn. Roedd y feithrinfa wedi ennill sgôr pum seren o'r Asiantaeth Safonau Bwyd, sy'n adlewyrchu safonau hylendid 'da iawn'.

Mae'r arweinydd yn gymwys wrth sicrhau diogelwch yr amgylchedd.

### 3.2 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau addasrwydd yr amgylchedd?

Mae'r mannau chwarae dan do ac awyr agored yn groesawgar, wedi'u haddurno'n dda, ac yn amgylchedd cyfoethog i ddysgu. Mae digon o le a chyfleusterau i ddiwallu anghenion grwpiau oedrannau gwahanol a phlant unigol.

Mae'r feithrinfa wedi'i adeiladu'n bwrpasol. Mae'r arweinwyr wedi gwneud y man chwarae yn yr awyr agored yn flaenoriaeth uchel ac roedd yn cael ei ddefnyddio fel rhan gyfannol o'r amgylchedd dysgu. Roedd yr ardal awyr agored yn galluogi'r plant i archwilio amrediad o gyfleoedd chwarae. Roedd yr ardal yn cynnwys ardal fawr gyda glaswellt, hambwrdd tywod a dŵr, cegin fwd yn ogystal â theganau i'w gyrru. Dywedodd yr arweinwyr wrthym fod ganddynt gynlluniau i ddatblygu'r ardal awyr agored ymhellach. Defnyddiwyd yr ardd ar

gyfer gweithgareddau â phwyslais penodol a chwarae rhydd y plant hefyd.  Roedd iard yn cael ei ddefnyddio ar gyfer chwarae gyda theganau ag olwynion. Roedd gan y plant begiau â'u henwau er mwyn iddynt hongian eu cotiau a'u bagiau arnynt; ond nid oedd ffotograffau arnynt fel cymorth gweledol i gefnogi'r plant i adnabod eu henwau. Roedd gan y babanod le i gropian er mwyn archwilio yn eu hystafell ac roedd yn cynnwys drychau lefel isel ac ardal synhwyred oedd yn cynnwys deunyddiau gwead, patrymau a lliwiau. Roedd gan y babanod a'r plant rhwng un a dwy flwydd oed fynediad at falconi yn yr awyr agored.  Gwelsom fod y plant yn defnyddio'r ardal hon yn ystod ein hymweliad.  Roedd yr arweinydd yn y broses o osod canopi uwchben er mwyn caniatáu ardal gysgodol, ddiogel awyr agored ar gyfer y plant hyn. Roedd yr arweinwyr wedi sicrhau bod yr amgylchedd yn lliwgar a chroesawgar a bod gwaith y plant yn cael ei arddangos drwy'r feithrinfa ac roedd hyn yn creu ymdeimlad da o berthyn a diogelwch.
Gwelsom fod y staff yn defnyddio lifft i symud plant o'r ystafell ar y llawr gwaelod i'r ystafelloedd ar y llawr uchaf yn ddiogel. Nid oedd gan bob bin yn y feithrinfa glawr a gwelsom fod un plentyn yn cael mynediad at y bin gwastraff cyffredinol yn yr ystafell newid cewynnau.

Mae'r arweinydd yn effeithiol wrth sicrhau bod yr amgylchedd yn addas.

### 3.3 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau ansawdd yr adnoddau a'r offer?

Mae'r arweinydd yn sicrhau bod gan y plant fynediad at ddodrefn, cyfarpar, teganau a deunyddiau sy'n briodol ac yn addas i'w hanghenion.  Mae'r adnoddau'n lân ac o ansawdd da.

Roedd yr arweinydd wedi sicrhau bod gan blant o wahanol oedrannau fynediad at deganau a oedd yn gweddu eu hoedrannau a'u diddordebau.  Gwelsom, er enghraifft, fod plant dan ddwy flwydd oed yn chwarae gyda blociau Duplo mawr a doliau, babanod yn chwarae gyda theganau synhwyraidd a phlant hŷn yn chwarae gyda chlai toes a llysiau yn yr ardal chwarae rôl.  Roedd digonedd o adnoddau i'r plant ddewis o'u plith.  Roedd y byrddau a'r cadeiriau ym mhob ystafell yn gweddu i oedran y plant.  Roedd yr arweinydd wedi sicrhau bod gan y staff gyflenwad da o'r adnoddau roedd eu hangen arnynt i ddiwallu anghenion y plant mewn da bryd, megis hancesi papur ac adnoddau newid cewynnau.  Roedd y staff wedi rhoi mynediad i'r plant at amrediad o adnoddau ar gyfer hyrwyddo'u chwilfrydedd, fel poteli a bagiau synhwyraidd.

Mae'r arweinydd yn sicrhau bod adnoddau a chyfarpar o ansawdd da ar gael i'r plant a'r staff.

## 4. Arweinyddiaeth a Rheolaeth

### Crynodeb

Mae’r arweinyddiaeth yn y feithrinfa yn effeithiol.  Mae'r arweinwyr wedi rhoi polisïau a gweithdrefnau ar waith. Mae'r staff yn gyfarwydd â'r rhain ac maen nhw'n cael eu trosi'n ymarfer cadarn ar y cyfan.  Mae partneriaethau da wedi'u creu gyda rhieni ac mae'r arweinwyr yn paratoi at eu hadolygiad ansawdd gofal cyntaf.

### Ein canfyddiadau

### 4.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?

Mae gan yr arweinwyr ddealltwriaeth o'r rheoliadau ac maent yn darparu darlun cywir o'r gwasanaeth y maent yn ei ddarparu. Mae ganddynt ddealltwriaeth o'r hyn sydd angen ei sefydlu i weithredu'r gwasanaeth yn effeithiol. Mae'r arweinwyr wedi datblygu dogfennaeth sydd wedi'i hysgrifennu'n dda i gynorthwyo gweithrediad esmwyth y ganolfan ac i gynyddu arfer da.

Gwelsom fod y datganiad o ddiben yn nodi nodau ac amcanion cyffredinol y gwasanaeth. Cynghorwyd yr arweinwyr bod angen mân ddiwygiad ar y datganiad o ddiben ynglŷn â'r niferoedd y maent wedi'u cofrestru i ofalu amdanynt, a chafodd hyn ei ddiweddaru ar ôl yr arolygiad.
Canfuom fod y gwaith papur yn drefnus iawn ac roedd yr arweinydd wedi casglu’r holl wybodaeth angenrheidiol am y plant yn eu gofal, gan gynnwys cydsyniad rhieni i dynnu ffotograffau, tripiau a thriniaeth frys.  Roedd dogfennaeth ynglŷn â phresenoldeb, cofnodi damweiniau a rhoi meddyginiaeth ar waith; fodd bynnag, nid oedd y dos olaf o feddyginiaeth wedi'i gofnodi yn y cofnodion meddyginiaeth ac nid oeddent yn cadw cofnod o anafiadau presennol.  Rhoddwyd y rhain ar waith yn ystod yr arolygiad.  Roedd cofrestrau'r plant ar gael ym mhob ystafell ac roedd y staff yn llofnodi mewn ac allan fel yr oeddent yn cyrraedd neu'n gadael y feithrinfa.  Gwelsom nad oedd y staff bob amser yn aros yn yr un ystafell trwy gydol y dydd ac nid oedd y rhain bob amser yn adlewyrchu'r staff oedd yn bresennol ym mhob ystafell.
Yn ystod ein hymweliad, gwelsom fwrdd gwyn y staff yn yr ystafell staff oedd yn cynnwys negeseuon, syniadau ac unrhyw bryderon a oedd gan y staff. Defnyddiwyd hyn fel dull i gyfathrebu a chyfle i rannu syniadau, ac ar gyfer myfyrio ynghylch arferion. Dywedodd yr holl staff y siaradwyd â nhw yn ystod yr arolygiad eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan yr arweinwyr, yn bersonol ac yn broffesiynol.

Mae'r arweinwyr wedi datblygu arweinyddiaeth effeithiol ar gyfer y gwasanaeth.

### 4.2 Pa mor effeithiol yw'r gwaith o hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella?

Mae'r arweinwyr yn cymryd camau er mwyn gwneud gwelliannau i'r gwasanaeth.

Canfuom nad oedd y gwasanaeth wedi dechrau'r broses o adolygu'r gwasanaeth eto, ond roedd yr arweinwyr yn ymwybodol bod angen adroddiad ar ansawdd y gwasanaeth yn flynyddol. Yn ystod trafodaeth, dywedodd yr arweinwyr wrthym eu bod yn awyddus i wella'r gwasanaeth a byddent yn gwrando ar unrhyw safbwyntiau a dderbynnir. Dywedodd yr arweinwyr wrthym eu bod yn edrych yn barhaus am agweddau y gallent eu datblygu a'u gwella wrth gynllunio ar gyfer y flwyddyn nesaf. Gwnaeth yr arweinydd ni'n ymwybodol eu bod yn cynllunio datblygu'r ardal awyr agored ymhellach yn ystod y flwyddyn.

Mae'r arweinwyr yn y broses o adolygu'r gwasanaeth er mwyn cynllunio a gwneud gwelliannau.

### 4.3 Pa mor effeithiol mae ymarferwyr, staff ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli?

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y feithrinfa'n cael ei staffio'n gywir ac yn ddiogel.

Mae'r arweinwyr wedi derbyn gwiriad gan yr heddlu a adnabyddir fel gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ac roeddent wedi cynnal gwiriadau ar gyfer aelodau newydd o staff, ond; nid oedd ffeiliau'r staff mewn trefn ar ein hymweliad cyntaf gan nad oedd yr holl ddogfennaeth wedi'i chynnwys yn y ffeiliau. Roedd yr arweinwyr wedi diweddaru'r ffeiliau hyn ac wedi sicrhau eu bod yn cynnwys y dogfennau perthnasol erbyn ein hail ymweliad. Roedd yr arweinwyr wedi rhoi amlinelliad o'u rolau a chyfrifoldebau i'r staff a dangosodd y staff eu bod yn gwybod beth oedd y rhain yn ymarferol. Roedd proses ymsefydlu drylwyr ar waith lle'r oedd arweinwyr wedi sicrhau bod y staff wedi darllen y polisïau a gweithdrefnau addas. Dywedodd yr arweinwyr wrthym fod ganddynt drefniadau ar waith ar gyfer absenoldebau staff i sicrhau'r effaith leiaf ar ansawdd y gofal y mae'r plant yn ei dderbyn. Ni wnaethom edrych ar gofnodion goruchwylio staff yn ystod ein hymweliad cyntaf gan nad oeddent wedi cynnal sesiynau un i un ffurfiol gydag aelodau staff; ond roedd dau sesiwn goruchwylio staff wedi'u cynnal erbyn yr ail ymweliad ac roedd sesiynau goruchwylio ar gyfer gweddill y staff wedi'u hamserlenni. Roedd yr arweinwyr yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd i drafod perfformiad y staff ac unrhyw faterion eraill, fel yr amgylchedd dysgu. Canfuom fod cymarebau staffio'n cael eu cynnal ym mhob ystafell. Roedd y person cyfrifol yn aelod o staff ychwanegol ar y diwrnodau y gwnaethom ymweld.

Mae'r arweinwyr yn rheoli'r staff a'r adnoddau eraill yn ddigonol.

### 4.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?

Mae'r arweinwyr yn gweithio mewn partneriaeth â rhieni o'r cychwyn, ac yn cyfathrebu â nhw'n rheolaidd.

Roedd yr arweinwyr wedi sicrhau bod y plant yn gallu ymweld â'r gwasanaeth gyda'u rhieni/gofalwyr cyn eu bod yn dechrau yn y feithrinfa. Cwblhawyd ffurflen gofrestru gan y rhieni/gofalwyr ar gyfer eu plant. Roedd y ffurflenni'n cynnwys gwybodaeth werthfawr yn cynnwys arferion ac alergeddau'r plant oedd yn helpu'r plant i ymgartrefu. Roedd arferion y plant hefyd yn cael eu harddangos ym mhob ystafell. Roedd yr arweinwyr wedi darparu rhieni â datganiad o ddiben a chopïau o bolisïau er mwyn iddynt wneud penderfyniad

gwybodus. Mae cofnod dyddiol yn cael ei ysgrifennu ac mae'n cofnodi beth mae'r plant wedi'i fwyta ac yfed yn ogystal â gwybodaeth ar gwsg a mynd i'r toiled, sy'n cael ei rhoi i'r rhieni yn ddyddiol. Roeddent hefyd yn rhoi adborth llafar i'r rhieni wrth iddynt gasglu eu plant. Roedd y sgyrsiau a gafwyd rhwng aelodau'r staff a'r rhieni am lesiant a hwyliau'r plant yn adlewyrchu eu profiad yn y feithrinfa. Gwnaethom siarad â rhieni oedd yn gadarnhaol am y feithrinfa a'r gofal yr oeddent yn ei ddarparu. Gwnaethom edrych ar holiaduron a oedd wedi'u cwblhau gan rieni ac roedd yr adborth yn gadarnhaol iawn, *"Mae fy mab wedi datblygu llawer ers iddo fod yma. Mae ei lefaredd wedi gwella'n fawr ac mae'n amlwg iawn eu bod yn treulio amser gyda'r plant ac yn eu dysgu bob diwrnod. Mae fy mab yn dwlu mynd yno ac mae'r staff mor barod i helpu a chyfeillgar."*

Mae'r arweinwyr wedi datblygu partneriaethau cadarnhaol â'r rhieni.

# 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

## 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim gan mai dyma’r arolygiad cyntaf ers cofrestru.

## 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Argymhellir y canlynol gennym:

- bod syniadau'r plant yn cael eu hadlewyrchu pan mae'r themâu yn cael eu cynllunio;
- bod gweithdrefnau rheoli heintiau yn cael eu tynhau;
- bod annibyniaeth y plant yn cael ei hyrwyddo ymhellach;
- bod y staff yn ymgyfarwyddo ag arferion newid cewynnau;
- bod y staff yn dyddio gwaith y plant er mwyn dangos cynnydd/atchweliad;
- bod gan bob bin clawr;
- bod ffotograffau o'r plant yn cael eu hychwanegu i'w pegiau enw er mwyn hyrwyddo cydnabyddiaeth enwau;
- bod cofnodion ymarferion tân yn dangos yr union ddyddiad yr oeddent wedi'u cynnal ynghyd â nifer y plant a staff oedd yn bresennol;
- bod yr holl gofnodion yn cael eu cwblhau mewn inc a
- bod cofnod yn cael ei gadw sy'n dangos pa aelodau o staff sy'n bresennol ym mhob ystafell.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Arolygiad llawn a gynhaliwyd fel rhan o'n hamserlen arferol o arolygiadau oedd hyn.

- Gwnaeth un arolygydd ymweld â'r gwasanaeth ar 23 a 25 Mai 2018 am gyfanswm o 11 awr;
- rhoddwyd adborth i'r unigolyn cyfrifol yn ystod yr ail ymweliad;
- gwnaethom archwilio sampl o ddogfennau a pholisïau;
- gwnaethom edrych ar y safle;
- gwnaethom arsylwi ar ymarfer a chwblhau arsylwadau;
- gwnaethom siarad â'r unigolyn cyfrifol, plant, rhieni a staff

Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn yr ydym yn ei wneud ar ein gwefan:
www.arolygiaethgofal.cymru

## 7. Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gofal Dydd Plant**<br>**Gofal Dydd Llawn** |
| **Unigolyn cyfrifol** | **Rhian Mann** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **40** |
| **Ystod oedran y plant** | **Wyth wythnos hyd at 12 mlwydd oed** |
| **Oriau agor** | **7:30am i 6pm, dydd Llun i ddydd Gwener** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Y ddwy iaith** |
| **Dyddiadau arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **Arolygiad cyntaf y gwasanaeth oedd hwn yn dilyn cofrestru ym mis Awst 2017.** |
| **Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn** | **23 a 25 Mai 2018** |
| **Ydy hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Maent yn cynnig 10 o lefydd a ariennir ar gyfer Dechrau'n Deg** |
| **Ydy'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?** | **Nac ydy** |
| **Ydy'r gwasanaeth hwn yn darparu cynnig gweithredol y Gymraeg?** | **Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu cynnig gweithredol y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a allai ddefnyddio'r gwasanaeth, o ran y Gymraeg a'i diwylliant.** |
| **Gwybodaeth ychwanegol:** | |